# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## EL(3) 16-10 (p3) : 8 Gorffennaf 2010

### Rôl mentrau cymdeithasol yn economi Cymru - DTA Cymru

Mae pwyllgor Menter a Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno archwilio "Swyddogaeth mentrau cymdeithasol yn Economi Cymru".

Mae'r ymateb hwn, gan Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, corff aelodaeth a rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru deillio o'n profiadau yng Nghymru, ac ar draws y DU fel y rhwydwaith ymarferwyr mwyaf o fentrau cymdeithasol yn y gymuned ac sydd yn cael eu harwain gan y gymuned.

Rydym wedi mynd i'r afael yn gryno a phob un o'r materion allweddol o ddiddordeb yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu o'n safbwynt a'n persbectif ein hunain.

**Ymddiriedolaethau Datblygu**

Mae Ymddiriedolaethau Datblygu yn fudiadau wedi eu perchnogi a'u harwain gan y gymuned ac sy'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol neu gymunedol.

Maen nhw'n fudiadau annibynnol ond yn gweithio'n agos gyda'r sector gyhoeddus, busnesau preifat a mentrau cymdeithas neu gymunedol eraill neu grwpiau gwirfoddol.

Maen nhw'n creu ac yn cadw cyfoeth yn y cymunedau, yn cefnogi'r economi leol a chymdeithasol trwy fasnachu a thrwy ddarparu gwasanaethau, yn sicrhau, yn datblygu ac yn rheoli asedau mentrau a sgiliau cymunedol, yn cyflenwi atebion i ddatblygiad cynaliadwy ac yn buddsoddi mewn adnewyddu cymunedol tymor hir. Yn yr un modd rhan arwyddocaol o'r sector mentrau cymdeithasol ehangach, mae ymddiriedolaethau datblygu yn canolbwyntio ar eu mentrau ac asedau cymunedol a'u swyddogaeth fel cyrff angori cymunedol a chreu adnewyddu cymdeithas, economaidd ac amgylcheddol tymor hir yn y cymunedau lle maen nhw'n gweithredu. Mae Ymddiriedolaethau Datblygu yn rhannu nodau a gwerthoedd cyffredin ond maen nhw yn wahanol iawn yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol

Mae Ymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru wedi'i lleol mewn cymunedau gwledig, ardaloedd ôl diwydiannol, trefi, stadau tai a threfi marchnad a glan mor, yn aml mewn ardaloedd sydd wedi'i dioddef sylweddol o ddirywiad economaidd neu wedi eu heithrio.

Mae enghreifftiau yn cynnwys Galeri Caernarfon a Menter Môn, Ecodyfi ym Machynlleth, Planed a Bloomfield Centre yn Sir Benfro, The Hill Community Development Trust and Gorseinon Development Trust yn Abertawe, New Sandfields and Aberavon Sustainable Regeneration, Creation Development Trust yn Nyffryn Garw , Awel Aman Tawe, Cynon Valley Crime Prevention, Arts Factory and Valleys Kids yn Rhondda Cynon Taf, Bron Afon Community Housing, Ebbw Vale Development Trust and Vision 21 Cyfle Cymru, Rounded Developments and Riverside Community Centre yng Nghaerdydd.

Mae manylion pellach am ein Haelodau Llawn, Aelodau Cyswllt a Darpar aelodau i'w cael ar ein gwefan www.dtawales.org.uk <http://www.dtawales.org.uk> neu archebwch gopi o gyfeiriadur ein haelodau.

Mae Cymdeithas Datblygu Ymddiriedolaethau Cymru (DTA) yn ymarferwyr annibynnol wedi'i selio ar aelodaeth, sydd yn hyrwyddo ac yn cefnogi gwaith y mudiad ymddiriedolaethau datblygu ddynamig yng Nghymru. Ein cenhadaeth ydy 'creu ymddiriedolaeth datblygu lwyddiannus ym mhob cymuned sydd eisiau un'. Rydym yn cefnogi ymddiriedolaethau newydd a darpar ymddiriedolaethau yng Nghymru, yn cynorthwyo ymddiriedolaethau presennol i weithredu'n well ac ehangu eu mentrau a'u gwasanaethau, yn cynnig cyngor arbenigol a hyfforddiant ar ddatblygu asedau sy'n berchen i'r gymuned ac ar drosglwyddo asedau, ac yn cefnogi rhwydwaith dysgu 'ymarferwyr' ar draws ein haelodaeth , a gyda rhwydweithiau eraill a phartneriaid sy'n rhannu ein gweledigaeth.

**Natur a graddfa'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru**

Bydden ni'n cytuno'n fras gyda'r diffiniad o Fenter Gymdeithasol sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Menter Gymdeithasol i Gymru (2009) ac a ddefnyddiwyd gan Gynghrair y Mentrau Cymdeithasol fel:

"A business with primarily social objectives, who surpluses are principally reinvested for the purpose in the business or in the community, rather than being driven by the need to maximize profits for shareholders"

Mae nifer o ymarferion Mapio ac ymchwil wedi cael eu comisiynu i adnabod graddfa a natur y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae amcangyfrifon yn amrywio o 600 o fentrau cymdeithasol yng Nghymru i hyd at 3,000 (209 Mapping social enterprise activity in Wales- Welsh Assembly report by Geoeconomics, the Research Unit, Sector Projects)

Mae graddfa a natur y sector wedi cael ei benderfynu gan y diffiniad o fenter gymdeithasol ddefnyddiwyd ac ehangder y mudiad a gynhwyswyd yn yr ymarfer mapio.

Cynhwysodd astudiaeth mapio 2009 sbectrwm eang, gyda mentrau cymdeithasol newydd sbon (bron i hanner y rhai adnabuwyd heb

staff llawn amser) ar un llaw, ac ar y llaw arall gwmnïau mawr fel Glas Cymru (28% o drosiant yr holl sector yng Nghymru) darparwyr tai a gofal cymdeithasol.

Mae'r rhwydwaith ymddiriedolaethau datblygu ei hun wedi tyfu o nifer fechan o ymddiriedolaethau yn y 1980/90au ( yn cynnwys Cwmni Tref Caernarfon, sefydlwyd yn 1992, bellach yn Galeri Caernarfon) i fwy na 46 o ymddiriedolaethau datblygu llawn neu ddarpar ymddiriedolaethau yng Nghymru a 500 ymddiriedolaeth ar draws y DU.

Dydy'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru a'r DU ddim yn homogenaidd, yn fodel caeth ac annibynnol, na chwaith yn sector y gellir ei hadnabod yn hawdd, yn hytrach mae'n ddull neu "well ffordd o wneud busnes".

Dydy mentrau ddim yn gallu cael eu trefnu na'u gorfodi i system" un maint i bawb", maen nhw angen tyfu a datblygu o gymunedau a mudiadau mentrus, o entrepreneuriaid ac arloeswyr cymdeithasol. Credwn y dylai Cynulliad Cymru hefyd ddathlu a chefnogi'r amrywiaeth hwn a'i atebion blaengar ac arloesol boed ar lefel gymunedol neu ar lefel Cymru gyfan.

Mae'n bwysig i wahaniaethu rhwng y mathau gwahanol o Fentrau Cymdeithasol, fel rhai cydweithredol, ymddiriedolaethau datblygu, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cymdeithasol neu ymddiriedolaethau tir cymunedol a mentrau cymdeithasol fesul sector yn gysylltiedig â thai, gofal iechyd a chymdeithasol, ail-gylchu ac ailddefnydd gwastraff, diwydiannau celf a diwylliant, yr amgylchedd, ynni adnewyddol, hyfforddiant bwyd a sgiliau sydd oll yn ychwanegu gwerth ac amrywiaeth i natur mentrau cymdeithasol yng Nghymru.

Credwn fod nifer fawr o gyfleoedd a photensial i weld cynnydd sylweddol yn y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru, trwy fuddsoddi yn yr hyn sy'n gweithio a chefnogi ac adeiladu ar yr atebion arloesol presennol, a'r rhai sydd i ddod ar ddatblygu cymdeithasol, economaidd a cynaliadwy mae'n ei gynnig

O fewn ein Hymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru, y gallwn eu hadnabod fel datblygiadau cymunedol yn bennaf, mae rhychwant eang o ran cyrhaeddiad a maint o Bron Afon Community Housing, Menter Môn neu Galeri Caernarfon (gydag asedau o thua £10miliwn a £1.5million o drosiant) i Ymddiriedolaethau sy'n datblygu fel Mawr neu Caerau Development Trusts ac yn cyflogi un person yn rhan amser.

Mae rhai o'n haelodau ymddiriedolaethau datblygu fel Cynon Valley Crime Prevention yn elusennau (sy'n ymgymryd â gwaith atal troseddu a gwaith codi ymwybyddiaeth gyda phobl ifanc fel y prosiect P.U.P.I.L – Pupils Understanding Problems in their Locality ) ond maen nhw hefyd wedi sefydlu ochr fasnachu â throsiant sylweddol, sy'n gweithredu fel menter gymdeithasol, yn ymgymryd â chytundebau diogelwch ar draws De Cymru.

**Cyfleodd ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy ac adfywio cymunedol trwy fodel busnes menter gymdeithasol**

Ar sail ein profiad gyda Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a thrwy'r DU gallwn ddangos 500 o atebion ar ffurf mentrau cymdeithasol gwahanol a chyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy ac adfywio cymunedol

Mae'r ymddiriedolaethau hyn i gyd yn arddangos gofynion allweddol a dulliau mentrau cymdeithasol i ymgymryd â datblygiad economaidd cynaliadwy a thrawsnewid cymunedol ac adfywio cymunedol sef

**Yn berchen i'r gymuned ac yn cael ei arwain ganddi -** Mudiadau angori cymunedol aml bwrpas.- ' Yn Angori' asedau, sgiliau, buddsoddiad egni ac amser cymunedol.

**Meithrin Mentrau** - Masnachu a datblygu neu'n gweithredu fel menter gymdeithasol neu gymunedol.

**Datblygu Asedau Cymunedol** - Sicrhau a rheoli asedau ym mherchnogaeth y gymuned, er enghraifft tir neu adeiladau, fel man cychwyn i fentrau, i ddarparu gwasanaeth a chynhyrchu incwm.

**Sicrhau Llewyrch Cymunedol** – Creu cyfoeth mewn cymunedau a'i gadw yno – yn ail-fuddsoddi yn yr economi leol, mewn cymunedau a sgiliau, asedau a mentrau.

**Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy** - Yn ymwneud ac adfywio economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cynaliadwy a thymor hir ac mewn atebion ymarferol i newid hinsawdd.

Mae hwn yn ardal o arfer da ar gyfer ymddiriedolaethau datblygu lle mae agweddau integredig ac arloesol tuag at ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymunedol yn cael eu darparu mewn ystod eang o gymunedau. Mae tystiolaeth o hyn wedi cael ei amlygu mewn adroddiad diweddar, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymry, a baratowyd gan Ymgynghorwyr Arad (Ionawr 2010), ar effaith Galeri Caernarfon ar adfywiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yr ardal. Crynodeb ar gael ar wefan Galeri www.galericaernafon.com <http://www.galericaernarfon.com/>.

Fe'i sefydlwyd fel Cwmni Tref, ymddiriedolaeth datblygu canol y dref yn 1992, maen nhw wedi adfywio ac yn berchen ar 28 eiddo yng Nghaernarfon ac 11 arall yn nyffrynnoedd llechi cyfagos. Gan adeiladu ar y record hon trosglwyddwyd tir i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu Canolfan Mentrau Creadigol Y Galeri, sydd yn cynnwys theatr, caffi, stiwdio recordio ac 19 gweithdy wedi'i reoli ar gyfer cwmnïau lleol neu artistiaid yn gweithio yn y diwydiannau creadigol.

Mae adroddiad Arad yn nodi bod Galeri nawr yn cyfrannu bron i £2.5 million i economi Gwynedd ac Ynys Môn bob blwyddyn ac mae'r gwariant ychwanegol a'r effaith economaidd sydd o ganlyniad i weithgareddau o fewn y Ganolfan yn £1.3 million. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael effaith sylweddol ar economi ardal ehangach a gweithredodd fel catalydd i fuddsoddiad pellach yn Noc Fictoria, lle mae tir diffaith gyferbyn a'r galeri wedi cael ei adfywio a thai a siopau a gwesty, ac a gefnogwyd gan fuddsoddiad o £4.3 miliwn gan Gynulliad Cymru a buddsoddiad o £23 miliwn gan y sector breifat.

Enghreifftiau eraill o'n rhwydwaith sy'n dangos arfer dda a photensial i'w ddyblygu a'i ehangu ydy BURA (British Urban Regeneration Association) UK. Mae Ymddiriedolaeth Datblygu gwobrwyedig Valleys Kids in the Rhondda and Creation yn Nyffryn Garw, sydd wedi llwyddo i gysylltu â nifer fawr o bobl ifanc, a grwpiau wedi'i eithrio, a'r gymuned ehangach trwy ystod o brosiectau datblygu asedau, gweithgareddau a mentrau. Maen nhw hefyd wedi datblygu arian cyfredol amgen, dulliau a ffyrdd economaidd o roi gwerth i weithgareddau "gwirfoddol" pobl trwy fasnachu eu hamser gan ddefnyddio model 'Bancio amser'.

Mae Planed yn Sir Benfro wedi cael ei amlygu am arfer da Ewropeaidd yn nhermau datblygu economaidd, adfywio gwledig a datblygu cynaliadwy. Enghraifft benodol o hyn ydy adfywiad Canol Tref Arberth, datblygiad asedau o safle cyn ysgol i 19 gweithdy dan reolaeth ac unedau menter a chefnogaeth i Bloomfield Centre, sydd bellach yn fenter gymdeithasol ei hun. Mae'r ffordd hon o fynd ati wedi cael ei ehangu i fwy nag 80 cymuned yn Sir Benfro..

Mae enghreifftiau clodwiw eraill o fentrau cymdeithasol sy'n cynnig cyfleoedd i'w dyblygu neu'i ehangu yn cynnwys rhai cydweithredol sy'n rholi a darparu gwasanaethau hanfodol fel siopau, swyddfeydd post, undebau credyd neu gydweithrediadau sy'n eiddo i'r gweithwyr yn sicrhau swyddi lleol ac yn creu cyfleoedd gwaith newydd. Mae cwmnïau Cymdeithasol fel PACK IT neu Antur Waunfawr wedi darparu ystod o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl anabl neu dan anfantais mewn gwahanol fathau o fentrau cymdeithasol.

Credwn hefyd bod cyfleoedd penodol i dyfu sectorau penodol ar gyfer ymddiriedolaethau datblygu a mathau eraill o fentrau cymdeithasol, yn ymwneud a chymdeithasau tai, caffael a modelau perchnogaeth gymunedol llai, fel Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol, newid hinsawdd , ynni adnewyddol a lleihau egni (mae dwy ymddiriedolaeth datblygu, Ecodyfi ac Awel Aamn yn darparu cefnogaeth i Gynllun Adnewyddol Cymunedol Cymru ac mae twf aruthrol wedi bod yn ddiweddar mewn ymddiriedolaethau datblygu yn Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban wedi'i gysylltu'n aml â chynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddol sy'n cynhyrchu incwm), dim gwastraff, ailgylchu ac ail ddefnyddio, lle mae Cylch wedi arloesi gyda nifer o atebion blaengar ac wedi datblygu mentrau cymdeithasol wedi'i gwreiddio yn y gymuned ar lefel fasnachol sydd yn gysylltiedig ag ychwanegu gwerth i ffynhonnau gwastraff; Datblygu Asedau (elfen allweddol o ymddiriedolaethau datblygu yn aml ond yn berthnasol hefyd i fathau eraill o fentrau cymunedol a chymdeithasol) fel man cychwyn i fentrau ac i gynhyrchu incwm, Diwydiannau Celf a Diwylliant (fel y dangoswyd gan, Galeri Caernarfon, NoFit State Circus, Promo Cymru and Young Wales) a sectorau eraill megis gofal iechyd a chymdeithasol, treftadaeth a thwristiaeth, hamdden, dysgu a sgiliau.

Efallai bod cyfleoedd newydd hefyd i fentrau sylweddol ar y cyd rhwng mentrau cymunedol a chymdeithasol a'r sector dai, y sector preifat neu'r sector gyhoeddus, sydd heb eu datblygu'n llawn yng Nghymru. Mae DTA Cymru yn credu gallai entrepreneuriaid cymdeithasol a chymunedol chwarae rhan fwy ac un hanfodol yn Economi Cymru ac yng Nghynllun Adfywio Economi Llywodraeth Y Cynulliad. Rydym wedi amlygu rhai o'r cyfleodd allweddol a'r anghenion i wireddu hyn yn ein hymateb i ymgynghoriad y Cynulliad Cenedlaetholbly 'Economic Renewal Programme' consultation (May 2010)

**Heriau sy'n wynebu mentrau cymdeithasol yng Nghymru**

Mae nifer o heriau yn wynebu mentrau cymdeithas yng Nghymru, ac i raddau mewn mannau eraill yn y DU, rydym wedi eu crynhoi isod.

Diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fodel busnes menter gymdeithasol ar draws pob sector ac o gyfrifeg Triple Bottom Line, lle mae rhan gyfartal yn cael ei osod ar effeithiau economaidd, cymdeithas ac amgylcheddol, canlyniadau ac adenillion.

Y canfyddiad bod mentrau cymdeithasol yn rhan o'r sector 'nid am elw' yn hytrach na 'mwy nag elw' neu 'ddim am elw preifat'.

Yr angen i wahaniaethu rhwng nifer o ddulliau o weithredu, mathau o fentrau cymdeithasol a'i anghenion cefnogi. Dathlu eu gwahaniaethau yn hytrach na 'un maint i bawb'

Y canfyddiad bod y sector yn un ar y cyrion neu yn un teilwng heb effaith economaidd o bwys na photensial i'w ddyblygu nag i dyfu.

Diffyg buddsoddi sylweddol a mynediad i sbectrwm ariannu ar gyfer y sector mentrau cymdeithas, sy'n adlewyrchu'r canfyddiad nad oes potensial.

Angen datblygu'r sgiliau, crafter busnes, 'parodrwydd i fuddsoddi' a'r hyder y sector ei Fyrddau a'i staff i fynd i'r afael ag asedau a datblygu mentrau newydd.

Diwylliant gwrth risg cyffredinol o ran polisi a chefnogaeth gan arianwyr ac o fewn mentrau cymdeithasol eu hunain.

Datblygu'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid cymunedol a chymdeithasol a hyrwyddo cyfleodd i hyfforddi a chael cyflogaeth o fewn y sector mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac i'r rhai sydd dan anfantais neu'n anweithgar yn economaidd.

Anawsterau wrth ddatblygu Trosglwyddo Asedau a chyfleoedd Caffael ar gyfer mentrau cymdeithas..

Angen cadernid a'r anawsterau o ddatblygu busnesau newydd mewn dirwasgiad, yn gysylltiedig â chostau cynyddol ac effaith newid hinsawdd, a chostau ynni a thrafnidiaeth.

Angen ymateb i gyfleodd o fewn y farchnad, datblygu mentergarwch a 'Meddwl yn Fawr' lle mae'n briodol.

Angen dal gafael ar effaith a chanlyniadau'r sector a hyrwyddo potensial ac arfer da.

**Agwedd Llywodraeth Cymru tuag at gefnogi mentrau cymdeithasol.**

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r rôl allweddol mae'r mentrau cymdeithasol o bob math yn chwarae wrth gyflawni agenda Cymru'n Un.

Mae cyhoeddi Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar Gyfer Cymru (2005) a'r Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol (2009) gan Gynulliad Cymru, y bu i DTA Cymru a rhwydweithiau mentrau cymdeithasol eraill gynnig awgrymiadau ac arweiniad iddynt , wedi cynorthwyo i ddarparu fframwaith ar gyfer twf a chefnogaeth i'r sector. Mae'r nodau ac amcanion yn dal yn berthnasol mewn perthynas â chreu amgylchedd o alluogi, gwneud mentrau cymdeithasol yn well busnesau, sefydlu gwerth mentrau cymdeithasol ac annog datblygiad cyfleoedd newydd.

Mae Cynulliad Cymru hefyd wedi amlygu sut gall menter gymdeithasol gefnogi nifer fawr feysydd gweithredu strategol ar draws y Llywodraeth yng Nghymru o ganlyniad i ehangder a sgôp darparu y sector.

Rydym yn croesawu'n arbennig y ffocws ar fentrau cymdeithasol yn ymgorffori hanfodion datblygu cymunedol a sut y gall gynnig atebion arloesol i newid hinsawdd a gweledigaeth Un Gymru, Un Blaned a'r Siarter Datblygu Cynaliadwy a lansiwyd eleni. (gweler ein hymateb i'r ymgynghoriad i Adfywio Economaidd)

Mae cefnogaeth Cynulliad Cymru i DTA Cymru wedi cynorthwyo ein rhwydwaith o ymddiriedolaethau datblygu i dyfu, i rannu arfer da, fel ymarferwr rhwydwaith dysgu aelodau a mentrau cymdeithasol eraill i ddatblygu eu mentrau a gwasanaethau. Croesawyd lansiad Cronfa Trosglwyddo Asedau y Gronfa Loteri Fawr a Chynulliad Cymru hefyd gan ein rhwydwaith. Yn yr hinsawdd economaidd heriol yma rydym yn gobeithio bydd y Cynulliad yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad ym mhob math o fenter gymdeithasol gan y gallant yn aml ddarparu gwasanaethau hanfodol, cyfleodd cyflogaeth a hyfforddi a chefnogi'r economi lleol mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru sydd yn debygol o ddioddef effaith dirwasgiad am flynyddoedd i ddod.

**Addasrwydd a chaffael cymorth busnes ar gyfer Mentrau Cymdeithasol.**

Mae nifer o fudiadau, asiantaethau cyhoeddus, arianwyr ac arbenigwyr sectoraidd yn darparu cymorth busnes a chyngor gwahanol i fentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae peth o hyn yn gefnogaeth generig ar gyfer mentrau cymdeithasol ar wahanol lefelau o ddatblygu a rhai eraill wedi'i ffocysu ar sectorau penodol neu fathau o fentrau cymdeithasol.

Mae ymarferwyr mentrau cymdeithasol yn tueddu i werthfawrogi cefnogaeth sydd wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion penodol

Mae angen hefyd o fewn y sector am gyngor ar sut i gael gafael ar amrywiaeth o ariannu a buddsoddiadau gwanhaol er mwyn datblygu ac ehangu eu mentrau a'u gwasanaethau. Mae hi wedi bod yn gynyddol anodd i fentrau cymdeithasol ddod o hyd i'r cyngor hwnnw a sicrhau'r buddsoddiad maen nhw' ei angen ac mae hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol.

Mae gan DTA Cymru arbenigedd a sgiliau arbennig parthed Trosglwyddo Asedau Cymunedol sydd wedi'i selio ar brofiad ymarferol a gwybodaeth am ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru ac ar draws y DU sydd wedi arloesi a dangos gwerth y dull hwn o weithredu. Credwn fod potensial aruthrol i fentrau ychwanegu at eu mentrau a chynhyrchu incwm a rhoi'r grym i gymunedau trwy ddefnyddio dull o ymdrin wedi'i selio ar asedau.

Mae DTA Cymru yn darparu hyfforddiant ymarferol ar Ddatblygu Asedau a Throsglwyddo Asedau trwy eu seminarau a gweithdai "Viability not Liability" a thrwy ddarparu cyngor i ymddiriedolaethau datblygu ac eraill sydd eisiau cael gafael ar a sicrhau buddsoddiad ar gyfer datblygu asedau, ar ffurf tir ac adeiladau. Rydym hefyd yn cefnogi trosglwyddo sgiliau a gwybodaeth rhwng ymarferwyr asedau cymunedol.

Ymgymerodd DTA ag ymchwil ar gyfer Cynulliad Cymru ar botensial 'Taking Forward the Quirk Review of Community Ownership of Assets in Wales' ddiwedd 2008 ac fe wnaeth nifer o awgrymiadau. Un o'r awgrymiadau hyn oedd i ddatblygu buddsoddi penodol ar gyfer Datblygu Asedau a Throsglwyddo Asedau yng Nghymru. O ganlyniad i hyn mae cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr.

Mae DTA Cymru hefyd wedi gweithio gyda chyrff proffesiynaol (RICS and CIFFA) i hyrwyddo Trosglwyddo Asedau i Awdurdodau Cyhoeddus ac maen nhw'n darparu cyngor ar yr arfer hwn ac a datblygu polisïau i Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill. (Yn Lloegr mae DTA yn arwain y Cynllun Advancing Assets gyda 80 Awdurdod Lleol a phartneriaid Cymunedol ac yn daprau gwasanaeth cefnogaeth i'r Gronfa Loteri Fawr, yn yr Alban mae DTA yn darparu y Promote Asset Transfer Programme ar gyfer Llywodraeth yr Alban)

**Heriau a chyfleoedd caffael gan y sector gyhoeddus**

Mae potensial ac ystod o gyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol yng Nghymru mewn perthynas â chaffael sector. Mae Value Wales ac eraill trwy Siarter Open Doors a digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr wedi codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd fel hyn. Mae rhai mentrau cymdeithasol wedi llwyddo i ennill tendrau yn arbennig o fewn y sectorau iechyd, gofal a gwastraff. Gall cyfleoedd fod hefyd er enghraifft yn y Sector dai mewn perthynas â "Adeiladu Cynaliadwy" ac ynni adnewyddol. Fodd bynnag mae dal angen gwneud llawer o ran codi ymwybyddiaeth o botensial mentrau cymdeithasol i ddarparu, ac adeiladu cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol i gaffael, gwreiddio caffael cynaliadwy ar draws y sector gyhoeddus (sydd yn defnyddio dull triple bottom line fel mesur o werth gorau) a datblygiad o Strategaethau a Pholisïau Caffael sy'n edrych i'r dyfodol, a datblygu a sgiliau a hyfforddiant ar gyfer mentrau cymdeithasol a swyddogion caffael sector gyhoeddus.

Mae nifer o'n haelodau mwy a'r rhai mwy profiadol wedi ei chael hi'n anodd cael gafael ar gaffael sector gyhoeddus ac ennill cytundebau..

Rydym yn argymell dylai mentrau cymdeithasol gael ffrydiau amrywiol o incwm a allai gynnwys cytundebau ar lefel gwasanaeth, cytundebau gyda'r sector gyhoeddus neu breifat ac incwm o asedau dan berchenogaeth y gymuned, mentrau, nawdd, benthyciadau, rhandaliadau a bondiau cymunedol, a mathau eraill o fuddsoddiad.

**Arloesi Cymdeithasol - potensial mentrau cymdeithasol i ddatblygu atebion newydd ac arloesol i rai o'r prif heriau sy'n wynebu Cymru yn y dyfodol.**

Mae mentrau cymdeithasol a entrepeneuriaid cymunedol yn ôl eu natur, wedi arwain newid cymdeithas ac arloesi yn aml.

Gall rhai o'r rhain fod ar lefel gymunedol, lle mae mentrau cymunedol a mudiadau angori wedi datblygu atebion holistaidd a chynaliadwy ar gyfer problemau dyrys a difreintedd wynebir gan gymunedau.

Mae enghreifftiau yn cynnwys y modd mae Creation Development Trust ac ymddiriedolaethau datblygu eraill yng Nghymoedd De Cymru wedi tyfu ac addasu 'Bancio Amser' a ddefnyddir mewn cymunedau trefol yn yr Unol Daleithiau, er mwyn galluogi cymunedau cyfan, gan gynnwys y rhai sy'n anweithgar yn economaidd, i roi gwerth ar, a masnachu a bargeinio eu hamser am nwyddau a gwasanaethau.

Mae Ymddiriedolaethau Datblygu wedi arloesi ar Ddatblygu Asedau Cymunedol a pherchnogaeth a Throsglwyddo Asedau sydd a'r potensial enfawr i roi grym ac adfywio cymunedau, i wella eu hyfywedd a'u cynaladwyedd, i gynhyrchu incwm a sicrhau ac annog mathau eraill o fuddsoddi ariannol.

Gall hyn ddylanwadu ar raddfa allweddol ac mae gan Ymddiriedolaethau Datblygu dros y DU asedau o thua £430 dan berchnogaeth gymunedol. Mae Coin Street Community Beuilders, un o'r ymddiriedolaethau datblygu cyntaf yn y DU yn berchen ar rannau helaeth o'r South Bank yn Llundain gan gynnwys the OXO Tower, 5 datblygiad tai cymdeithasol, marchnad, canolfan gymunedol ac mae wedi dylanwadu ar gynllunio rhyngwladol o ran cynllunio a defnydd cymysg a datblygu.

Fel soniwyd eisoes mae Planed yn Sir Benfro wedi cael ei amlygu am arfer gorau ar lefel Ewropeaidd o ran datblygu economaidd gwledig.

Mae cynnydd yn y diddordeb ar lefel ryngwladol mewn mentrau cymunedol ac entrepreneuriaeth sydd yn ei dro yn dylanwadu ar rannau o'r sector gyhoeddus, mae economegwyr blaenllaw a buddsoddwyr yn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Gorffennwn gyda dyfyniad gan Jeff Skolll - sylfaenwr Ebay, entrepeneur a sefydlydd Skoll World Forum a'r Centre for Social Entrepreneurship

" Social entrepreneurship will be the driving force over the next 100 years – the single biggest movement that's going to change the way we live"